

DATBLYGIAD PRESWYL YN LLANDDAROG

**AT SYLW UNRHYW BERCHENNOG NEU DDEILIAD UNRHYW DIR SY'N FFINIO
Â'R TIR Y MAE'R CAIS HWN YN CYFEIRIO ATO.**

**YMGYNGHORIAD CYN YMGEISIO AM GANIATÂD CYNLLUNIO. HYSBYSIAD O
DAN ERTHYGL 2D GORCHYMYN CYNLLUNIO GWLAD A THREF
(GWEITHDREFN RHEOLI DATBLYGU) (CYMRU) 2012 (DIWYGIWYD 2016).**

Mae S.W.Owen wedi cael cyfarwyddyd gan D.H.W.Davies Ltd. o 19/20 Heol Awst, Caerfyrddin, SA31 3AL, i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio ynghylch datblygiad arfaethedig y safle uchod. Yma rhoddir hysbysiad bod D.H.W.Davies Ltd yn bwriadu gwneud cais am ganiatâd cynllunio i Gyngor Sir Caerfyrddin, ar gyfer y datblygiad canlynol;

Datblygiad preswyl ar gyfer 16 o dai (gan gynnwys 3 fforddiadwy), ar dir gyferbyn â Neuadd y Pentref, Llanddarog, Sir Caerfyrddin.

Diben yr Hysbysiad hwn: Mae'r Hysbysiad hwn yn rhoi cyfle i wneud sylwadau'n uniongyrchol i'r datblygwr ar y datblygiad arfaethedig cyn cyflwyno cais cynllunio i Gyngor Sir Caerfyrddin. Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn rhoi cyhoeddusrwydd i unrhyw gais cynllunio dilynol; ni fydd unrhyw sylwadau a ddarparwyd mewn ymateb i'r hysbysiad hwn yn effeithio ar eich gallu i gyflwyno sylwadau i Gyngor Sir Caerfyrddin ar unrhyw gais cynllunio cysylltiedig. Dylech nodi y gellir rhoi unrhyw sylwadau a gyflwynir ar y ffeil cyhoeddus.

Mae'r cais arfaethedig, y cynlluniau, a'r dogfennau ategol ychwanegol ar gael i'w harchwilio ar-lein yn www.llanddaroghousing.wales. A chopi papur ar gael i'w gweld yn Swyddfa Bost Llanddarog, rhwng 9 y.b a 5.30 y.h o ddydd Mawrth i ddydd Gwener, a rhwng 9 y.b ac 1y.h ar ddydd Llun a dydd Sadwrn. Mae'r Swyddfa Bost ar gau ar ddydd Sul.

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau ar y datblygiad arfaethedig hwn wneud hynny erbyn **Mehefin 7, 2019** fan bellaf. Fe'ch anogir i anfon eich sylwadau ar ffurf e-bost i : info@llanddaroghousing.wales Fel arall, cewch ysgrifennu at :

D.H.W.Davies Ltd, 19/20 Heol Awst, Caerfyrddin, SA31 3AL

Llofnodwyd .

S.W.Owen ar ran D.H.W.Davies

Dyddiad: Mai 10, 2019